Cynefin Consultants

Cylchlythyr
Rhif 3

Gweithio gyda bywyd gwyllt

Dros y blynyddoedd diwethaf mae pwysigrwydd ein bywyd gwyllt cynhenid wedi dod yn llawer mwy canolog i'r diwydiant datblygu. Mae awdurdodau cynllunio yn aml yn gofyn am arolygon ecolegol yn enwedig os oes unrhyw berygl y bydd datblygiad yn effeithio ar "rywogaeth a'i hamddiffynnir". Fel yr eglurai cyn Cyfarwyddwr y Cyngor Gwarchod Natur a Chadeirydd Cynefin, Yr Athro Tom Pritchard;

"Nid yw presenoldeb rhywogaeth a'i hamddiffynnir o anghenraid yn golygu na all ddatblygiad ddigwydd, yr hyn sydd rhaid sicrhau yw bod buddion y rhywogaeth sydd dan ystyriaeth yn cael eu cadw mewn golwg wrth wneud penderfyniadau. Gall creaduriaid megis adar, ystlumod a moch daear fel arfer fyw gyda gweithgaredd dyn dim ond ein bod yn ystyried eu hanghenion o'r cychwyn."

Llwyddiannau cynllunio diweddar

- Bu Cynefin yn llwyddiannus mewn ennill apêl cynllunio ar ran perchnogion safle siales gwyliau a oedd ag amod trigiannol tynn ar eu caniatâd cynllunio a oedd yn eu rhwystro rhag gwneud y defnydd gorau o'u heiddo.
- Llwyddodd Cynefin i helpu grŵp o drigolion i ymladd yn erbyn cynlluniau i adeiladu pump o dai ar safle a fyddai wedi achosi cryn aflonyddwch ac amharu ar eu mwynderau.

Dylanwadu ar bolisïau cynllunio

Mae ceisio deall y polisi cynllunio perthnasol ar gyfer ardal arbennig yn gallu bod yn dasg ddryslyd a rhwystredig. Fodd bynnag, mae'r cyfle yn awr ar gael ar draws Cymru i ddylanwadu polisi lleol mewn modd ystyrlon. Fel yr eglurai cydymaith Cynefin, Susan Hill;

"Mae awdurdodau lleol ar draws Cymru wedi cychwyn ar y gwaith o baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol newydd, a thros y blynyddoedd nesaf bydd sawl cyfle i bobl leol a busnesau cael dweud eu dweud yn y broses. Mae'n holl bwysig nad ydych yn colli'ch cyfle i fynegi eich barn."

Os ydych am gael sgwrs anffurfiol ynglŷn â sut y gallwn eich helpu i effeithio ar y polisïau newydd hyn, cysylltwch gyda Susan ar 01492 622272.

Newidiadau yn Cynefin

Mae cyn-reolwr prosiectau Cynefin, Patrick Bigham, wedi gadael y cwmni, gan ymuno gyda Capita Symonds fel Ymgynghorydd Amgylcheddol. Mae pawb yng Nghynefin yn dymuno'n dda iddo yn ei rôl newydd. Bydd Rhys Roberts, cynllunydd trefol siartredig, yn cwblhau dyletswyddau Patrick o hyn ymlaen. Bydd yn cyd-drefnu ein timau gweithredu ac yntau bydd y brif bwynt cyswllt ar gyfer cwsmeriaid.

Ynghylch Cynefin

Rhag ofn nad ydych yn ymwybodol o'r ystod o wasanaethau 'rydym yn eu cynnig mae'r rhain yn cynnwys:

- **Gwasanaethau cynllunio** - cyngor a chymorth gyda cheisiadau cynllunio ac apeliadau;
- **Gwerthusiad amgylcheddol** - asesu effeithiau cynnigion datblygu ar yr amgylchedd;
- **Ymchwil a chyllido** - helpu'ch cynllun i gwrdd a gofynion cyrff ariannu a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau.

Mae croeso i chi alw i'n gweld ar unrhyw adeg. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â

Rhys Roberts
1 Teios New York, Ffordd Bangor, Penmaenmawr, Conwy LL34 6NP
Tel: 01492 622272 ~ ebost: info@cynefin.co.uk ~ www.cynefin.co.uk